

CABINET
DYDD MAWRTH, 19 TACHWEDD 2024

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Hybrid Meeting Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2024

YN BRESENNOL: **Cynghorydd Dave Hughes (Cadeirydd)**
Cynghorwyr Glyn Banks, Chris Bithell, Helen Brown, Chris Dolphin, Mared Eastwood, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones and Linda Thomas

HEFYD YN BRESENNOL: Cynghorwyr David Coggins Cogan, Chrissy Gee and Andrew Parkhurst

YMDDIHEURIADAU: Dim.

CYFRANWYR:
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog Tai a Chymunedau), Prif Swyddog (Strydlun a Cludiant), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid), Corfforaethol Rheolwr Cyllid, Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, Rheolwr Corfforaethol - Cyfalaf Rhaglen ac Asedau, Rheolwr Gwasanaethau Rhaglen Tai a Rheolwr Cyllid Strategol.

102. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

103. COFNODION
(dolen i recordio)

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2024 ([rhif eitem agenda 3](#)) a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

PENDERFYNWYD:

Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd fel cofnod cywir.

104. CYNLLUN BUSNES ARIANNOL 30 MLYNEDD Y CYFRIF REFENIW TAI (HRA)
(dolen i recordio)

Cyflwynodd y Cynghorydd Brown adroddiad Cynllun Busnes Ariannol 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ([rhif eitem agenda 4](#)), a oedd yn amlygu'r holl ystyriaethau gofynnol.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Ystyried cyllideb y CRT ar gyfer 2025/26, fel y nodir yn yr adroddiad;
- (b) Cymeradwyo'r codiad isafswm rhent arfaethedig o 2.7%;

- (c) Cymeradwyo'r cynnydd o 2.7% yn rhenti garejjs;
- (d) Cymeradwyo cynnydd mewn taliadau gwasanaeth i adennill costau llawn;
- (e) Nodi'r pwysau a'r effeithlonrwydd y manylir arnynt yn yr atodiad; a
- (f) Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf CRT arfaethedig ar gyfer 2025/26.

**105. RHAGLEN GYFALAF 2025/26 – 2027/28
(dolen i recordio)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Jones yr adroddiad ([rhif eitem agenda 5](#)) a oedd yn cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig am y cyfnod 2025/26 – 2027/28 i'w hargymell i'r Cyngor.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r dyraniadau a'r cynlluniau yn Nhabl 3 ar gyfer adrannau Statudol / Rheoleiddiol ac Asedau Wrth Gefn Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2025/26 – 2027/28;
- (b) Cymeradwyo'r cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 4 ar gyfer yr adran Buddsoddi o Raglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2025/26-2027/28;
- (c) Nodi'r diffyg cyllid ar gyfer cynlluniau yn 2027/28 yn Nhabl 5 (er bod gwarged yn y blynyddoedd blaenorol); a
- (d) Cymeradwyo'r cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 6 ar gyfer yr adran o Raglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor a ariennir yn benodol a fydd yn cael ei hariannu'n rhannol drwy fenthyca.

**106. STRATEGAETH GYFALAF YN CYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS
2025/26 – 2027/28
(dolen i recordio)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad ([rhif eitem agenda 6](#)) a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer argymhelliad i'r Cyngor.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf a'i hargymell i'r Cyngor Sir; a
- (b) Bod y Cabinet yn cymeradwyo ac argymell i'r Cyngor Sir:
 - Y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2025/26 – 2027/28 fel y manylir arnynt yn Nhablau 1, a 4-8 o'r Strategaeth Gyfalaf
 - Dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol wneud symudiadau rhwng y terfynau a gytunwyd ar wahân o fewn y terfyn awdurdodedig ar

gyfer dyled allanol a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol (Tabl 6 y Strategaeth Gyfalaf).

107. COMISIYNU CWMNI EIDDO D2 – GWASANAETHAU LLETY I BOBL DDIGARTREF
(doben i recordio)

Cyflwynodd y Cynghorydd Brown yr adroddiad ([rhif eitem agenda 7](#)) a oedd yn amlinellu model o wasanaethau rheoli tai dwys a ddarperir gan D2 PropCo ar gyfer llety digartref a manteision cost ymgysylltu â phartner ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r gwaith a wnaed i adnabod darpar ddarparwyr gwasanaeth rheoli tai dwys ar gyfer llety digartref;
- (b) Nodi canlyniad yr Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) o ran profi'r farchnad; a
- (c) Cymeradwyo'r dyfarniad uniongyrchol i D2 PropCo, i'w cyflogi fel partner i ddarparu datrysiad rheoli tai dwys ar gyfer llety digartref.

108. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2024/25 (MIS 6)
dolen i recordio

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad ([rhif eitem agenda 8](#)) a oedd yn rhoi'r trosolwg manwl diweddaraf o sefyllfa monitro'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r adroddiad a'r effaith ariannol amcangyfrifedig ar gyllideb 2024/25; a
- (b) Nodi'r mesurau sy'n cael eu hystyried ar gyfer gwella'r sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

109. MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2024/25 (MIS 6)
(dolen i recordio)

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad ([rhif eitem agenda 9](#)) a oedd yn crynhoi'r newidiadau a wnaed i Raglen Gyfalaf 2024/25 ers ei gosod ym mis Rhagfyr 2023.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r adroddiad cyffredinol;
- (b) Cymeradwyo'r addasiadau i'w cario ymlaen; a
- (c) Nodi'r dyraniadau ychwanegol a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 15 Hydref 2024.

**110. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2025/26
(dolen i recordio)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad ([rhif eitem agenda 10](#)) a oedd yn rhan annatod o'r gyllideb refeniw a phroses cymeradwyo Treth y Cyngor ar gyfer 2025/26.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y sylfaen drethu o 66,458 eiddo cyfwerth â band D at ddibenion gosod treth ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 sy'n ymgorffori'r codiad arfaethedig i'r cyfraddau o 75% i 100% i'r cyfraddau ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor a pharhad o cymeradwyo'r premiwm 100% ar gyfer Ail Gartrefi; a
- (b) Parhau i osod 'dim' disgownt ar gyfer eiddo sy'n dod o fewn unrhyw un o'r Dosbarthiadau Penodedig (A, B neu C) a fyddai'n berthnasol i ardal gyfan y sir.

**111. GWEITHREDU NEWIDIADAU I'R CASGLIADAU GWASTRAFF GWEDDILLIOL
AC ADOLYGU'R POLISI
(dolen i recordio)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad ([rhif eitem agenda 11](#)) a oedd yn cyflwyno'r dyddiad gweithredu arfaethedig a chynlluniau gweithredu a chyfathrebu sydd yn eu lle ar gyfer y newid gwasanaeth.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r dyddiad gweithredu arfaethedig ar gyfer newid amllder casglu gwastraff gweddilliol a gymeradwywyd eisoes;
- (b) Nodi'r cynllun gweithredu arfaethedig, a chefnogi'r gwaith a wnaed hyd yma;
- (c) Nodi'r cynllun cyfathrebu;
- (d) Nodi'r Polisi Gweithrediadau Canolfannau Ailgyrchu a Chasgliadau Gwastraff y Cartref wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau a gymeradwywyd yn flaenorol i wasanaethau; a

- (e) Nodi'r Polisi Trwyddedau Cerbydau Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi'i ddiweddarau sydd i'w gyhoeddi yn dilyn mabwysiadu gweithdrefnau diwygiedig a roddwyd ar waith i gefnogi cwsmeriaid ag anabledau a allai fod angen defnyddio'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref gan ddefnyddio eu cerbydau.

**112. HUNANWERTHUSIAD GWASANAETHAU ADDYSG SIR Y FFLINT
(dolen i recordio)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Eastwood yr adroddiad ([rhif eitem agenda 12](#)) a ddaeth i'r casgliad bod gwasanaethau addysg yn Sir y Fflint yn gryf, yn cefnogi plant a phobl ifanc yn effeithiol ac yn parhau i ddarparu gwerth da am arian.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi canlyniad adroddiad hunan-arfarnu blynyddol y Portffolio Addysg ar ansawdd y gwasanaethau addysg am y cyfnod 2023/24; a
- (b) Cyflwyno unrhyw sylwadau ar yr adroddiad i'r Tîm Portffolio

**113. LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2023-24 A PHERFFORMIAD CWYNION HANNER BLWYDDYN 2024-25
(dolen i recordio)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad ([rhif eitem agenda 13](#)) a oedd yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor mewn perthynas â chwynion o gamweinyddu a dderbyniwyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. Roedd hefyd yn rhoi trosolwg o'r cwynion a dderbyniwyd gan bob portffolio.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi perfformiad blynyddol cadarnhaol y Cyngor mewn perthynas â chwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2023-24;
- (b) Nodi perfformiad hanner blwyddyn y Cyngor (2024-25) mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd yn unol â pholisi Pryderon a Chwynion y Cyngor; a
- (c) Cefnogi'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

**114. BROMBOROUGH PLASTICS - ADRODDIAD DIWEDDARU
(dolen i recordio)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad ([rhif eitem agenda 14](#)) a oedd yn rhoi manylion dyled yr argymhellwyd ei dileu yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

Cefnogwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r ddyled a ddilëwyd.

**115. YMARFER PWERAU DIRPRWEDIG
(dolen i recordio)**

Cyflwynwyd a nodwyd eitem wybodaeth ([rhif eitem agenda 15](#)) ar y camau a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig.

Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985 - Ystyried gwahardd y wasg a'r cyhoedd

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (HAWL I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED
GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD:

Bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd am weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

116. MODEL GWELLA YSGOLION

Cyflwynodd y Cynghorydd Eastwood yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud i greu Gwasanaeth Gwella Ysgolion newydd yn Sir y Fflint o 1 Ebrill 2025.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cydnabod cymhlethdodau creu model awdurdod lleol newydd ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion o fewn yr amserlenni disgwylidig gyda rhywfaint o nodyn hanfodol o wybodaeth eto ar gael;
- (b) Bod yr Aelodau'n cadarnhau eu hyder yn y model drafft sy'n cael ei gyflwyno i sicrhau cefnogaeth barhaus ac effeithiol i ysgolion Sir y Fflint i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr;
- (c) Bod Aelodau'n derbyn bod yn rhaid i'r model fod yn hyblyg ac yn amodol ar newidiadau a wneir gan uwch swyddogion y Portffolio Addysg wrth i gynnydd gael ei wneud tuag at y dyddiad cau ar gyfer Ebrill 2025; a
- (d) Bod unrhyw adborth a sylwadau yn cael eu darparu, er mwyn llywio datblygiad y model.

117. CAFFAEL SYSTEM GWYBODAETH CLEIENTIAID- DIWEDDARU

Cyflwynodd y Cyngorydd Jones yr adroddiad a oedd yn amlinellu caffael a gweithredu system TG newydd ar gyfer gofal cymdeithasol.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod cyfranogiad parhaus ac esblygol wrth gynhyrchu'r achos busnes cenedlaethol a'r grwpiau cenedlaethol sy'n sail i'r rhaglen Cysylltu Gofal;
- (b) Cymeradwyo symud ymlaen i'r cam dyfarnu Contract a sicrhau ymrwymiad ariannol; a
- (c) Cytuno ar y cynigion i ddechrau gweithredu'r system newydd ar ôl 1 Ebrill 2026, a'u gweithredu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2028.

118. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.10 pm)

.....
Cadeirydd